COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

ADRODDIAD / TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

DIBEN: PENDERFYNIAD Y COMISIYNYDD – CYF. DLI 064

Amseru: Brys

Teitl: Ailstrwythuro Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh)

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: e.e. Deddfwriaeth Sylfaenol, Gofyniad Statudol, Cyllid, Perfformiad, Cwynion ayyb (diwygiwch fel y bo'n briodol)

Sefydliadol

Crynodeb Gweithredol:
Nodir cyfrifoldebau statudol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn glir yng Ngorchymyn Protocol Plismona 2011. Er mwyn cyflawni'r cyfrifoldebau statudol hyn, gall Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, yn unol â Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, benodi swyddogion fel yr ystyria'n briodol i'w alluogi i arfer swyddogaethau'r Comisiynydd, yn ychwanegol i'r swyddogion statudol Pennaeth Staff a Phrif Swyddog Ariannol.

Gan fod y swyddogaeth Ystadau wedi trosglwyddo o'r Heddlu i SCHTh (cofnod penderfyniad DLL 030) ym mis Ebrill 2017, ac o ystyried bod nifer o aelodau staff yn gadael SCHTh am resymau amrywiol, yn ddiweddar, ystyriwyd bod yr amser yn briodol i adolygu strwythur y swyddfa er mwyn sicrhau ei fod yn alinio â disgwyliadau ac anghenion y Comisiynydd.

Mae lefelau staffio yn y strwythur cyfredol yn 38.5 cyfwerth â llawn amser ac yn costio £1,353,000. Cynigir mai 41.1 cyfwerth â llawn amser fydd y lefelau staffio newydd ar gost o £1,500,000. Mae'r cynnydd hwn o ran staffio'n cynnwys mwy o fuddsoddiad yn y meysydd rheoli perfformiad / cydymffurfio a chyllid. Mae rhan o'r cynnydd yn y gost yn ymwneud â chwyddiant o ran cyflog a staff yn symud ymlaen trwy'r graddau cyflog.

Argymhelliad:

Bod Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n cael ei hailstrwythuro er mwyn sicrhau ei bod yn darparu cymorth effeithiol ac effeithlon i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu wrth iddo ryddhau ei ddyletswyddau statudol.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: **Dyddiad: 30/01/2018**

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

Strwythur Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Swyddogaeth graidd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yw cynrychioli cymunedau amrywiol ardal Heddlu Dyfed-Powys a dal yr heddlu i gyfrif ar ran y cyhoedd. Nodir cyfrifoldebau statudol y Comisiynydd yng Ngorchymyn Protocol Plismona 2011, sy'n nodi bod gan y Comisiynydd hawl gyfreithiol, ymysg pethau eraill, i:

- Gefnogi a herio perfformiad cyffredinol yr Heddlu yn erbyn blaenoriaethau cytunedig y Cynllun Heddlu a Throseddu a osodwyd ganddo a chraffu arno;
- Cynnal gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon ar gyfer yr ardal heddlu;
- Darparu'r cyswllt lleol rhwng yr heddlu a chymunedau, gan weithio i droi dyheadau a dymuniadau dilys y cyhoedd yn weithredoedd;
- Monitro pob cwyn a wneir yn erbyn swyddogion a staff, a bod yn gyfrifol am gwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl;
- Derbyn cyfrifoldeb penodol am gyflenwi diogelwch cymunedol a lleihau trosedd; a
- Derbyn cyfrifoldeb ehangach am wella cyflenwi cyfiawnder troseddol yn eu hardal.

Er mwyn cyflawni'r cyfrifoldebau statudol hyn, gall Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, yn unol â Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, benodi staff fel yr ystyria'n briodol i'w alluogi i arfer swyddogaethau'r Comisiynydd, yn ychwanegol i'r swyddogion statudol Pennaeth Staff a Phrif Swyddog Ariannol.

Wrth ystyried dyletswyddau statudol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, ochr yn ochr â'i Gynllun Heddlu a Throseddu ar gyfer 2017-2021, mae'n cael ei ystyried yn briodol i adolygu strwythur Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) er mwyn sicrhau bod y strwythur yn alinio ag anghenion a disgwyliadau'r Comisiynydd. Heblaw hynny, mae angen i SCHTh gael ei sefydlu mewn ffordd lle mae perfformiad sefydliadol cynaliadwy sy'n gyson ac yn hunan-barhaus.

Wrth drosglwyddo'r swyddogaeth ystadau o'r Heddlu i SCHTh ym mis Ebrill 2017, cychwynnwyd adolygiad o effeithlonrwydd y gweithrediad ystadau a fyddai'n ystyried gofynion staffio. Hysbysodd y canfyddiadau'r adolygiad o strwythur cyffredinol SCHTh sy'n ceisio dod â'r ddau faes at ei gilydd gan gynnig lefel cadernid uwch, yn arbennig mewn perthynas â chymorth busnes a rheoli perfformiad.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cychwynnol gyda'r tîm er mwyn darganfod eu barn ynghylch effeithlonrwydd y strwythur cyfredol a cheisio barn ar gyfer

trefniadau yn y dyfodol. Mae'n dda nodi bod yr adborth yn gadarnhaol dros ben yn ystod ail ran y broses ymgynghori pan gyflwynwyd strwythur arfaethedig ar gyfer ystyriaeth, a chytunwyd yn gyffredinol y byddai'r strwythur staffio arfaethedig yn cefnogi'r CHTh i gyflawni canlyniadau effeithiol ar gyfer y cyhoedd.

Mae lefelau staffio yn y strwythur cyfredol (Atodiad A) yn 38.5 cyfwerth â llawn amser ac yn costio £1,353,000. Cynigir mai 41.1 cyfwerth â llawn amser fydd lefelau staffio'r strwythur newydd (Atodiad B) ar gost o £1,500,000. Mae'r cynnydd hwn o ran staffio'n cynnwys gwell buddsoddiad o ran y meysydd rheoli perfformiad / cydymffurfio a chyllid. Mae rhan o'r cynnydd yn y gost yn ymwneud â chwyddiant o ran cyflog a staff yn symud ymlaen trwy'r graddau cyflog. Nododd yr adolygiad i effeithlonrwydd y swyddogaeth ystadau nifer o bryderon mewn perthynas â materion cydymffurfiaeth statudol a thynnwyd sylw at yr angen ar gyfer buddsoddi er mwyn sicrhau bod y CHTh yn bodloni ei gyfrifoldebau statudol, er enghraifft, mewn perthynas ag iechyd a diogelwch, a rhoi darpariaethau mewn grym er mwyn monitro perfformiad SCHTh. Yn ogystal, ystyrir bod angen buddsoddi mewn gwasanaeth ariannol a busnes er mwyn hwyluso rheolaeth ariannol a busnes gadarn, a datblygu rheoliadau llywodraethu priodol a pherfformiad busnes.

Ystyriaeth allweddol ar gyfer strwythur arfaethedig SCHTh yw'r angen i ddatblygu strwythur staffio sy'n addas i'r diben ar gyfer darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol. O'r herwydd, mae'r strwythur arfaethedig yn cynnwys contractio gwasanaethau cynnal ffabrig meddal a chaled allan. Bwriad hyn yw cyflenwi gwell gwasanaeth mewn modd sy'n fwy cost effeithiol. Hefyd, mae'n gweld trosglwyddo'r Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus i'r Heddlu yng ngoleuni newidiadau sydd ar fin digwydd i'r ffordd yr ymdrinnir â chwynion heddlu o dan Ddeddf Plismona a Throseddu 2017. Trwy drosglwyddo'r Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus i gyfrifoldeb llwyr y Prif Gwnstabl, bydd y Comisiynydd yn medru rhyddhau ymagwedd llwyr annibynnol i apeliadau pan mae'n eu derbyn.

Bydd y strwythur arfaethedig yn gweithio ochr yn ochr â strwythur llywodraethu newydd ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys a bydd yn cael ei alinio ag ymagwedd bartneriaeth y Comisiynydd o ddatblygu perthnasau proffesiynol adeiladol o fewn yr Heddlu a gyda phartneriaid allanol sy'n gysylltiedig â chyflenwi gwasanaethau lleol. I'r perwyl hwn, bydd SCHTh yn gatalydd ar gyfer newid cadarnhaol sy'n cyflenwi gwasanaethau effeithiol ac effeithlon ar gyfer ein cymunedau lleol.

Atodiadau

- Strwythur gyfredol SCHTh
- Strwythur newydd SCHTh

Papurau Ategol / Cefndir

- Gorchymyn Protocol Plismona 2011
- Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011